# Hosbis yn y Cartref yng Ngheredigion



Elusen Gofrestredig 512394

Severn Hospice
here and at home

## Mae ein gwasanaeth Hosbis yn y Cartref yn galluogi'r rhai sydd yn ein gofal yng Ngheredigion i aros gartref ar ddiwedd eu bywyd.

Gan weithio ochr yn ochr â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill sy'n ymwneud â'ch gofal, mae tîm Severn Hospice yn cynnig cefnogaeth i chi a'r rhai agosaf atoch.

## Sut mae Hosbis yn y Cartref yn eich helpu chi

Mae Hosbis yn y Cartref yn darparu gofal personol o'r ansawdd uchaf i bobl sydd yng nghyfnod olaf eu salwch.

Mae ein tîm profiadol a phroffesiynol o ofalwyr wedi ymrwymo i roi i gleifion a'r rhai agosaf atynt yr ansawdd bywyd gorau i alluogi marwolaeth urddasol a heddychlon. Penderfynir ar faint o gefnogaeth sydd ei hangen arnoch mewn partneriaeth â chi, eich teulu a'r holl weithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n ymwneud â'ch gofal.

Bydd eich gofalwr Hosbis yn y Cartref yn bresennol yn ystod yr oriau y cytunwyd arnynt gyda chi.

Caiff ein tîm ei gefnogi gan gydlynwyr sy'n sicrhau ein bod bob amser yn blaenoriaethu'r rhai sydd â'r angen mwyaf. Os bydd unrhyw beth yn newid, byddwn yn rhoi gwybod i chi.

## Cael eich cyfeirio at Hosbis yn y Cartref yng Nghheredigion

Bydd angen i chi gael eich cyfeirio gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol sy'n ymwneud â'ch gofal a fydd yn siarad â chi am y lle gorau i'ch cefnogi ar y cyfnod hwn yn eich cynllun gofal.

Yna, dim ond gyda'ch caniatâd chi y cewch eich cyfeirio, a hynny os taw eich dymuniad yw bod gartref.

## Beth sydd angen ichi ei wneud

**Unwaith y byddwch wedi cael eich cyfeirio at y tîm Hosbis yn y Cartref, byddem yn gwerthfawrogi pe baech yn ystyried y canlynol:**

- Ei gwneud hi'n hawdd i ni gael mynediad i'ch cartref
- Rhoi gwybod i ni am unrhyw beth megis anifeiliaid anwes neu beryglon, gan gynnwys ysmygwyr
- Caniatáu i ni ddefnyddio eich ffôn os oes angen

### Manylion cyswllt ar gyfer y tîm

**Ffôn** 01970 635790
**Ffôn Symudol** 07736 481611

**E-bost**
HatH@severnhospice.org.uk

Parhad trosodd

# Ynglŷn â Severn Hospice

Mae'r gwasanaeth Hosbis yn y Cartref yn cael ei ddarparu am ddim i bobl yng Ngheredigion sy’n byw gyda salwch na ellir ei wella. Mae’n wasanaeth sydd wedi’i gomisiynu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Mae ein gofalwyr proffesiynol, hyfforddedig yn gweithio mewn partneriaeth â holl ddarparwyr gofal iechyd Ceredigion o dan ymbarél Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.

Caiff y gwasanaeth ei gyllido ar y cyd gan y GIG yng Nghymru a Severn Hospice, elusen annibynnol. Mae'r elusen yn talu am bob agwedd o’r gwasanaeth Hosbis yn y Cartref yng Ngheredigion ac eithrio cyflogau staff.

Mae'r hosbis yn dibynnu ar roddion elusennol i ariannu ei gwaith, gan ofalu bob blwyddyn am 3,000 o deuluoedd yn Sir Amwythig, Telford & Wrekin, Gogledd Powys, a Ceredigion sy'n byw gyda'r newyddion mwyaf torcalonnus y gall unrhyw un ei glywed.

Mae ganddi wardiau yn Amwythig a Telford ac mae'n gofalu am bedwar allan o bump o gleifion yn eu cartrefi eu hunain. Mae ei thimau arbenigol yn darparu mwy na dim ond gofal clinigol arbenigol i unrhyw un sy'n byw gyda salwch na ellir ei wella, maent hefyd yn cefnogi anghenion corfforol, cymdeithasol, ysbrydol a seicolegol y claf.

Lle bynnag y mae'n darparu ei gofal tosturiol, caiff ei darparu'n gwbl rad ac am ddim, ond nid yw hyn yn dod heb gostau. Mae Severn Hospice yn rhan o’r rhwydwaith gofal iechyd ond nid yw’n rhan o'r GIG ac mae'n rhaid iddi godi £2 am bob £3 y mae'n ei gwario.

## Gall unrhyw un ein cefnogi a chaiff unrhyw gefnogaeth ei gwerthfawrogi gan y teuluoedd yr ydym yn gofalu amdanynt heddiw ac yn y dyfodol. Gofynnwch i ni am ffyrdd y gallwch chi ein cefnogi ni yng Ngheredigion.

**severnhospice.org.uk**


**Amwythig**
Bicton Heath SY3 8HS
01743 236565

**Telford**
Apley Castle TF1 6RH
01952 221350

**Y Drenewydd**
Back Lane, Powys SY16 2NH
01686 623558

**Ceredigion**
Tŷ Geraint,
Bronglais Hospital,
Ceredigion SY23 1ER
01970 635790